

Mwy o Debygrwydd na Gwahaniaethau



Meddwl am y Dyfodol

Dysgu drwy
gysylltiadau
rhyngwladol ymhen
40 a 200 mlynedd


Mwy o Debygrwydd na Gwahaniaethau (diwylliant a gwerthoedd Cymru a Basotho)

CYNNWYS:

1. Iaith yng Nghymru
2. Iaith yn Lesotho
3. Annibyniaeth yng Nghymru
4. Annibyniaeth yn Lesotho
5. Twristiaeth yng Nghymru
6. Twristiaeth yn Lesotho
7. Bywyd yng Nghymru wledig
8. Bywyd yn Lesotho wledig
9. Podlediadau



Sganiwch y cod QR neu cliciwch
ar y ddolen isod i weld y Padlet
Mwy o Debygrwydd na
Gwahaniaethau
- ychwanegwch waith eich
disgyblion ac ymunwch â'n
cymuned fyd-eang o arweinwyr



CLICK HERE



Cydnabyddiaethau

Wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â
Taith a Dolen Cymru Lesotho, mae'r
adnodd hwn wedi'i seilio ar leisiau a
phrofiadau bywyd cymunedau,
addysgwyr, a phobl ifanc yng Nghymru a
Lesotho. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth
Cymru 2025-6.

CA2 sleidiau

Mwy o Debygrwydd na Gwahaniaethau (diwylliant a gwerthoedd Cymru a Basotho)

Cliciwch isod ar gyfer Pecynnau Athrawon Blwyddyn 4 i 11:



Meddwl am y Dyfodol -

Dysgu drwy gysylltiadau rhyngwladol
ymhen 40 a 200 mlynedd

Mwy o Debygrwydd na Gwahaniaethau
(Blwyddyn 4-6)

< 1 / 27 > 🔍 ... ↗



Meddwl am y Dyfodol -

Dysgu drwy gysylltiadau rhyngwladol
ymhen 40 a 200 mlynedd

Mwy o Debygrwydd na Gwahaniaethau
(Blwyddyn 7-9)

< 1 / 31 > 🔍 ... ↗



Meddwl am y Dyfodol -

Dysgu drwy gysylltiadau rhyngwladol
ymhen 40 a 200 mlynedd


Mwy o Debygrwydd na Gwahaniaethau
(Blwyddyn 10 - 11)

< 1 / 27 > 🔍 ... ↗

Iaith yng Nghymru

Croeso i Gymru

Delwedd o Lyfr Gwyn
Rhydderch yn dangos
dechrau Breuddwyd
Macsan Wledig.
Rhan gyntaf o ddwy
lawysgrif Llyfr Gwyn
Rhydderch, yn cynnwys
Pedair Cainc y Mabinogi



https://cy.wikipedia.org/wiki/Comin_Creu

Hyd at 1850, roedd 90% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, ond mae wedi wynebu sawl her ers hynny, ac ar adegau bu bron iddi gael ei cholli. Pan wladychwyd Prydain gan yr Anglo-Sacsoniaid, cafodd siaradwyr y Frythoneg eu rhannu i'r rhai hynny yng ngogledd Lloegr a siaradai Cymbrig, y rhai hynny yn y de-orllewin a siaradai fersiwn gynnar o Gernyweg, a'r rhai hynny a siaradai Gymraeg gyntefig. Yr iaith a siaradwyd yn y 12fed a'r 14eg ganrif, neu Gymraeg Ganol, yw'r iaith a ddefnyddiwyd i ysgrifennu'r llawysgrifau cynharaf sy'n bodoli o'r Mabinogion, ei chasgliad llenyddol enwog, ac mae'n Gymraeg y gall siaradwyr yr oes sydd ohoni ei deall i bob pwrpas.

Mwy o Debygrwydd na Gwahaniaethau

Gyda sofraniaeth Lloegr dros Gymru yn swyddogol yn sgil Deddfau Uno Harri'r VIII ym 1536, cafodd y defnydd o Gymraeg ei wahardd yn helaeth ac fe basiwyd deddfau aoedd yn cael gwared ar statws swyddogol yr iaith Gymraeg. Golyga hyn fod rhaid i bobl siarad Saesneg er mwyn ennill gwaith a gwneud cynnydd mewn bywyd. Roedd ataliad yr iaith yn ymestyn i fyd addysg hefyd. Yn adroddiadau seneddol aoedd yn dwyn y teitl 'Y Llyfrau Gleision', nodir: *"Mae'r iaith Gymraeg yn anfantais sylweddol i Gymru, ac yn rhwystro amlochrog i gynnydd moesol a ffyniant masnachol y bobl. Nid yw'n rhwydd goramcangyfrif ei heffeithiau drwg... Mae'n gwahanu'r bobl rhag pethau a fyddai'n gwneud daioni mawr i'w gwareiddiad, ac yn eu hwystro rhag gwella eu gwybodaeth"*.

Her arall i'r iaith oedd y Chwyldro Diwydiannol, drwy niferoedd uchel o siaradwyr Saesneg yn mudo i Gymru yn gwanhau'riaith ac yn arwain at weithleoedd dwyieithog neu Saesneg eu hiaith. Gyda statws cyfreithiol y Gymraeg yn parhau i fod yn israddol i'r Saesneg, daeth y Saesneg yn iaith nodweddiadol yn raddol.

IX. THE WELSH LANGUAGE.

The Welsh language is a vast drawback to Wales, and a manifold barrier to the moral progress and commercial prosperity of the people. It is not easy to over-estimate its evil effects. It is the language of the Cymri, and anterior to that of the ancient Britons. It dissevers the people from intercourse which would greatly advance their civilisation, and bars the access of improving knowledge to their minds. As a proof of this, there is no Welsh literature worthy of the name.*

https://cy.wikipedia.org/wiki/Comin_Creu

Ataliad leithyddol

“Cenedl heb iaith, cenedl heb galon”.

O’r 16eg ganrif ymlaen, wynebodd yr iaith Gymraeg fwyfwy o ataliad, yn enwedig wrth i reolaeth wleidyddol a chyfreithiol Cymru ddod yn fwy cysylltiedig â Lloegr. Ym 1536 a 1542, pasiwyd Deddfau’r Cyfreithiau yng Nghymru gan Goron Lloegr, ac fe wnaed y Saesneg yn unig iaith swyddogol llysoedd a’r llywodraeth yng Nghymru. Cafodd y Gymraeg ei heithrio o fywyd cyhoeddus a statws swyddogol. Dyma oedd dechrau’r ataliad ieithyddol systematig.

Yn Oes Fictoria, byddai’r iaith Gymraeg yn cael ei chosbi yn aml mewn ysgolion. Un dull drwg-enwog oedd defnyddio’r “Welsh Not”, sef darn o goedyn a fyddai’n cael ei osod rownd gwddf plant a fyddai’n cael eu clywed yn siarad Cymraeg. Yn aml, byddai’r plentyn a oedd yn gwisgo’r darn o goedyn ar ddiwedd y diwrnod yn cael ei gosbi. Roedd yr arfer hon yn annog pobl i beidio â defnyddio’r Gymraeg ac yn codi cywilydd ar blant am siarad eu mamiaith



Y Welsh Not-yn Sain Ffagan

Protestwyr dros yr iaith Gymraeg-Walesonline.co.uk



Y Welsh Not-yn Sain Ffagan

Wrth i fwyfwy o siaradwyr Saesneg symud i Gymru am waith, ac wrth i Saesneg ddod yn iaith busnes a chynnydd, dechreuodd rai ystyried y Gymraeg yn rhwystr rhag llwyddiant.

Am ran helaeth o’r 20fed ganrif, prin iawn oedd y Gymraeg i’w gweld mewn papurau newydd, ar y teledu, ar arwyddion cyhoeddus, ac fe wanaodd hynny ei gwelededd a’i defnydd.

Heddiw, dywed oddeutu 29% o boblogaeth Cymru eu bod yn gallu siarad Cymraeg (yn ôl Cyfrifiad 2021), a nod Llywodraeth Cymru yw cynyddu hynny i 1 miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae ymdrechion yn parhau i hyrwyddo'r iaith mewn ysgolion, cymunedau, gweithleoedd ac yn y byd digidol.

Iaith yn Lesotho

Cyfieithiad Lesothoydy “tirySotho.”



Moshoeshe-I: Wikimedia Commons

Ar ddechrau'r 19eg ganrif, unodd y Brenin Moshoeshe I genedl Basotho ar ôl bygythiadau a phroblemau lu o'r tu mewn ac y tu allan i'r wlad. Daeth Moshoeshe â gwahanol grwpiau o siaradwyr Basotho a chymunedau Nguni ynghyd. Serch hynny, roedd y rhan helaeth o bobl o'r de yn defnyddio Sotho ddeheuol ac roedd dylanwad diwylliant Basotho yn achosi llai o ddefnydd o ieithoedd fel Phuthi a Xhosa. O ganlyniad i hynny, daeth Sesotho yn brif iaith y wlad.

“If you talk to a man in a language he understands, that goes to his head. If you talk to him in his language, that goes to his heart.”
Nelson Mandela

Helpodd Christian Missionaries i ysgrifennu Sesotho er mwyn cyfieithu'r beibl ac i hyrwyddo llythrennedd. Er mai'r Saesneg a ddaeth yn brif iaith gweinyddiaeth, daeth Sesotho yn iaith allweddol mewn ysgolion cynradd. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n haws dysgu Basotho yn yr ysgol ac yn helpu i gryfhau undod cenedlaethol a diwylliannol ymhlith pobl Basotho. Drwy gydnabod Sesotho fel y brif iaith, gwelwyd ieithoedd fel Phuthi a Xhosa yn gwanhau. Ni chânt eu defnyddio mewn digwyddiadau ffurfiol, yn y cwricwlwm ysgol nac mewn unrhyw ddogfennau swyddogol. Felly, esgeuluswyd y defnydd o restrï llafar er y gallent helpu i gyfieithu Sesotho i ieithoedd eraill a addysgwyd yn yr ysgol.

[Gweithio gydag uTalk ar eu Hap Sesotho, Mawrth2025 - Dolen Cymru](#)

Mwy o Debygrwydd na
Gwahaniaethau



Ataliad leithyddol

Cyflwynodd Cenhadwyr Cristnogol y Saesneg fel iaith dramor drwy eglwysi ac ysgolion. Ers y 19eg ganrif, dan reolaeth drefedigaethol Prydain, daeth y Saesneg yn brif iaith gweinyddiaeth ac yn yr ysgol.

Mewn ysgolion, addysgir pob pwnc yn Saesneg, ac eithrio Sesotho. Drwy ddefnyddio'r Saesneg fe ataliwyd Sesotho, a daeth y Saesneg yn gryfach nag unrhyw iaith arall. Yn rhai ysgolion cyhoeddus, caiff dysgwyr eu cosbi am ddefnyddio Sesotho i gyfathrebu.

Mae dylanwad y Saesneg a'r Ffrangeg wedi arwain at ddirywiad yn y wybodaeth sylfaenol o Sesotho ymhlith plant Basotho. Yn rhai ysgolion preifat, nid yw Sesotho yn orfodol hyd yn oed.

Traddodiadau Llafar ac Adrodd Straeon

Ar ôl i Sesotho ddod y brif iaith, mae adrodd straeon wedi chwarae rhan sylweddol o ran gwarchod hanes, trosglwyddo deddfau ac addysgu gwerthoedd diwylliannol. Caiff chwedlau gwerin eu hadrodd gan y bobl hŷn i'r genhedlaeth ieuengach, a hynny yn iaith Sesotho a Phuthi. Caiff chwedlau gwerin, diarhebion, a chaneuon eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth, gan sicrhau bod y dreftadaeth ddiwylliannol yn parhau i fod yn fywiog a pherthnasol

Adfywiad leithyddol

Ynddiweddar, mae yna ymgeisiau wedibod i adfywio Sesotho yn y wlad. Cafodd y rhain eu cyflwyno gan y Llywodraeth i annog ei defnydd ac er mwyn ei gwarchod. Bellach, mae Sesotho yn orfodol mewn ysgolion cynradd cynnar fel rhan o'r cwricwlwm newydd ac yn golygu bod plant yn tyfu i fod yn rhugl yn yr iaith Sesotho a'r Saesneg. Mae gweithdai cymunedol a rhaglenni iaith yn canolbwyntio ar adrodd straeon ar lafar a barddoniaeth draddodiadol er mwyn ail-gyflwyno gweithgareddau diwylliannol yn ymwneud â'r iaith.



<https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0>

CYMRU

Dolenni Pellach

[BBC Wales - History - Themes - The 1536 Act of Union](#)

[Welsh Not: The Welsh Not Explained - FelinFach](#)

[Mabinogion](#)

[What Do I Need to Learn Medieval Welsh? - Adnoddau](#)

[Celtic Studies](#)

[Welsh language protests: A history of Cymdeithas yr Iaith
Gymraeg | Wales Online](#)

[Understanding Welsh Language Laws - Golley Slater](#)

[The Welsh Language: Revival of Cymraeg in Contemporary
Wales - ILAB Academy](#)

LESOTHO

[Basotho Oral Tradition: South Africa's High-Altitude](#)

[Legends - MemoryCherish](#)

[Matty and the magical apple tree](#)

[PronunciationGuidetoSesothoTexts-African Composers Edition](#)

[PronouncingDifficultSesothoWords\(Part.1\)](#)

[MythicalcreatureofLesotho | SymbolHunt](#)

<https://utalk.com/en/store/southern-sotho>

<https://www.dolencymru.org/working-with-utalk-on-their-sesotho-app-march-2025/>



100 Gair Sesotho



Adfywio'r iaith yn Lesotho



Rhaglen Ffoneg Sesotho

Annibyniaeth i Gymru

Roedd Deddfau'r Cyfreithiau yng Nghymru, 1536–1543, yn cysylltu Cymru â Theyrnas Lloegr dan Harri'r VIII, gan gael gwared ar y system gyfreithiol ar wahân a chyflwyno'r Saesneg fel yr iaith swyddogol. Wedi dweud hynny, ar ddiwedd yr 19eg-20fed Ganrif, datblygodd Cymru hunaniaeth genedlaethol gref, yn enwedig drwy'r iaith Gymraeg, crefydd (Cristnogaeth Anghydfurfiol), a'r mudiad llafur. Cyfeiria annibyniaeth Cymru at y mudiad gwleidyddol yn eirioli dros Gymru i ddod yn genedl gwbl annibynnol, heb fod yn gysylltiedig â'r Deyrnas Unedig

Rali Plaid Cymru, Cilmeri



<https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0>

Mwy o Debygrwydd na
Gwahaniaethau

Annibyniaeth i Gymru

1920au/30au - Ynsgil y cwmp economaidd, dinistriwydhyder cenedlaethol Cymru gan arwain at niferoedd mawr yn mudo i Loegr. Bu i effaith hyn ar yr iaith Gymraeg arwain at bryderon ynghylch goroesiad Cymru.

1950au/1960au - Dechreuodd pob plaid wleidyddol chwilio am ffyrdd o gydnabod cenedligrwydd Cymru. Felly, gwnaethpwyd Caerdydd yn brifddinas, cydnabuwyd y ddraig goch fel y faner swyddogol, rhoddwyd statws cyfreithiol i'r iaith Gymraeg a oedd yn gwanhau, a chrëwyd swydd lywodraethol i warchod Cymru. Roedd y mentrau hyn o ganlyniad i gyfuniad o bwysau gwleidyddol a phrotestiadau yng Nghymru.

Refferendwm 1997 - Pleidleisiodd mwyafrif bychan o blaid sefydlu Cynulliad datganoledig i Gymru (Senedd Cymru bellach).

Erbyn 1999 - Arweiniodd y broses hon at greu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Am y tro cyntaf yn ei hanes, roedd gan Gymru sefydliad democrataidd ar gyfer hunan-lywodraethu cenedlaethol. Wedi dweud hynny, dim ond chwarter o'r etholwyr a bleidleisiodd o blaid, a dewisodd hanner y bobl i beidio â phleidleisio o gwbl. Y gwir amdani oedd er bod ymdeimlad cyffredinol o hunaniaeth Cymru yn bwerus iawn, roedd goblygiadau gwleidyddol hyn yn brin.

2006 a 2011 - Datblygiadau - Enillodd y Senedd fwy o bwerau deddfwriaethol, yn enwedig ar ôl i refferendwm 2011 ei chaniatáu i basio deddfau mewn meysydd datganoledig heb gymeradwyaeth San Steffan.

Datganoli

Crëwyd SeneddCymruynwreiddiol fel Senedd Genedlaethol Cymru ym 1999 fel rhan o gynlluniau llywodraeth Lafur y DU i ddatganoli pŵer i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bwriad y datganoli yng Nghymru oedd caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud ar wasanaethau allweddol gan “bobl wedi’u hethol yn uniongyrchol gan bleidleiswyr Cymru, ac sy’n atebol iddynt”, ac “yn fwy na dim... yn rhoi llais clir ac unigryw dros Gymru”

Mae gan y Senedd y pŵer i wneud deddfau dros nifer o feysydd allweddol ar fywyd yng Nghymru. Mae’r rhain yn cynnwys y rhan fwyaf o agweddau ar iechyd a gofal cymdeithasol, tai, addysg, trafnidiaeth leol, datblygiad economaidd, gwasanaethau cymdeithasol, iaith a diwylliant, yr amgylchedd, a llywodraeth leol. Mae hi hefyd yn meddu ar rai pwerau codi trethi, yn cynnwys rheolaeth o drethi lleol, trethi ar drafodiadau eiddo (treth dir y dreth stamp) a thirlenwi, a’r pŵer i amrywio cyfraddau treth incwm yng Nghymru.

Mae gan y Senedd gwmpas mwy cyfyngedig o bwerau na senedd Gogledd Iwerddon a senedd yr Alban. Yn arbennig, nid oes ganddi bŵer dros blismona a chyfiawnder yng Nghymru, sy’n parhau i fod yn gyfrifoldeb i lywodraeth y DU.

Mae’r ddadl dros annibyniaeth Cymru yn fater cymhleth sy’n esblygu ac sy’n ymwneud â hunaniaeth, democratiaeth, economeg, a hanes. Mae deall dwy ochr y ddadl yn hollbwysig er mwyn cael trafodaeth ddysgedig ac er mwyn gwneud penderfyniadau. Wrth i dirweddau gwleidyddol newid ac wrth i farn y cyhoedd newid, mae dyfodol Cymru o fewn y DU, neu’r tu allan iddi, yn parhau i fod yn bwnc pwysig i’w drafod.



Gorymdaith dros Annibyniaeth i Gymru 2019.

<https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0>



Y Senedd- creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0

“Who ordained that a few should have the land of Britain as a perquisite: who made ten thousand people owners of the soil and the rest of us trespassers in the land of our birth”?

David Lloyd George

Annibyniaeth yn Lesotho

Wedi'i adnabod gynt fel trefedigaeth Coron Prydain Basutoland, enillodd Lesotho annibyniaeth rhag y Deyrnas Unedig ar 4 Hydref 1966.

Mae hi bellach yn genedl gwbl annibynnol, ac yn cynnal aelodaeth mewn amrywiol sefydliadau annibynnol, yn cynnwys y Cenhedloedd Unedig, Cenhedloedd y Gymanwlad, yr Undeb Affricanaidd, a Chymuned Datblygu De Affrica.

Gellir dehongli "Lesotho" fel "tir y Sotho".



Brenin Moshoeshoe II, <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/3.0/nl/deed.en>

Mwy o Debygrwydd na
Gwahaniaethau

Boikemiseto



<http://creativecommons.org/publicdomain/zero/1.0/deed.en>

Enillodd y mudiad annibyniaeth yn Lesotho fomentwm drwy gydol yr 1960au. Aeth arweinwyr Basotho ati i ddwysáu eu hymdrechion i ennill annibyniaeth rhag rheolaeth drefedigaethol Prydain.

Roedd gan Lesotho, un o dair Tiriogaeth yr Uchel Gomisiwn lefelau uchel o lythrennedd, a dyma'r gyntaf i ddeffro cefnogaeth tuag at deimladau cynyddol y cyhoedd mewn perthynas ag annibyniaeth.

Ym 1952, ffurfiodd Ntsu Mokhehle Plaid Gynghres Basutoland, a oedd wedi'i modelu ar yr ANC.


Ym 1958, aeth Pennaeth Leabua Jonathan ati i sefydlu Plaid Geidwadol Genedlaethol Basutoland (BNP) gyda chefnogaeth llywodraeth De Affrica, yr Eglwys Babyddol, a'r Rhaglyw Frenhines.

Arweiniodd Pennaeth Leabua Jonathan y BNP i fuddugoliaeth agos iawn yn etholiadau 1965 a daeth yn brif weinidog cyntaf Lesotho. Roedd cyflawni hunan-lywodraeth fewnol yn garreg filltir sylweddol ar y daith i annibyniaeth.

Y Daith i Annibyniaeth



Ar 4ydd Hydref, 2024
nodwyd deuoli Basutoland
200 mlynedd yn ôl a'r 58fed
blwyddyn o annibyniaeth
rhag rheolaeth Prydain.
Ymunodd miloedd o bobl
Basotho â'r dathliadau a
ddangosodd
cryfder eu diwylliant, eu
gwytnwch a'u hundod fel
cenedl.



Adfer y Frenhiniaeth

Dychwelodd Moshoeshoe II o alltudiaeth ym 1992 fel dinesydd cyffredin. Ar ôl dychwelyd i ddemocratiaeth, ymgeisiodd Brenin Letsie III adfer ei dad (Moshoeshoe II) fel pennaeth y wlad, ond methodd.

Ym mis Awst 1994, llwyfannodd Letsie III ymosodiad gyda chefnogaeth filwrol i gael gwared ar y llywodraeth BCP ar ôl iddynt wrthod adfer ei dad, yn ôl gorchymyn cyfansoddiad Lesotho.

Adferwyd Moshoeshoe II i'r orsedd, ond bu farw mewn damwain car ar 15fed Ionawr 1996 ac yn sgil hynny fe adferwyd Letsie III fel brenin.


Wedi trafodaethau gan wladwriaethau a oedd yn aelodau o Gymuned Datblygu De Affrica, adferwyd llywodraeth BCP, ac ildiodd Letsie III y goron er mwyn ei dad ym 1995.

Wedi dweud hynny, dychwelodd i'r orsedd unwaith eto pan fu farw Moshoeshoe II mewn damwain car ar 15 Ionawr 1996.



Brenin Letsie III,
<https://creativecommons.org/licenses/by/4.0>

Dolenni Pellach



20 Things You Should Know About Lesotho Independence Day - Lesotho News

Seremoni Diwrnod yr Annibyniaeth

Famous Lesotho Kings and Queens - Lesotho News

Lesotho Independence Day: A Journey from Colonial Subjugation to Sovereign Nationhood – kesariexpress

Colonial Legacy in Lesotho: Impacts on Society And Culture – Afro Discovery

Governance - Lesotho Nation Brand

Timeline generator

Lesotho Bicentennial celebration in Cardiff, September 2024 - Dolen Cymru

Twristiaeth yng Nghymru

Mae Cymru yn wlad sydd â chyfoeth o harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol, a hanes difyr. O'i harfordiroedd garw a pharciau cenedlaethol mynyddig i'w chestyll canoloesol a digwyddiadau bywiog, mae twristiaeth yn gwneud cyfraniad allweddol i economi a hunaniaeth Cymru.

Gellir gwerthfawrogi'r golygfeydd godidog o frig mynyddoedd Eryri i ardal hyfryd Arfordir Penfro. Yn ogystal, mae gan Gymru dri pharc cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru sy'n ymestyn 870 milltir.

Mae twristiaeth yn cyfrannu'n sylweddol at economi Cymru, yn cefnogi dros 100,000 o swyddi ac yn cynhyrchu biliynau mewn refeniw bob blwyddyn, gan annog buddsoddiad mewn cymunedau gwledig ac arfordirol

Croeso i Gymru



Eryri, <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0>



Castell Caerdydd <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0>

Prif Atyniadau Twristiaid

- Parc Cenedlaethol Eryri – Yn gartref i fynydd uchaf Cymru, Yr Wyddfa, ac yn noddfa i gerddwyr, dringwyr, a'r rhai sydd wrth eu bodd â byd natur.
- Caerdydd – Mae'r brifddinas yn cynnig cyfuniad o atyniadau modern a safleoedd hanesyddol fel Castell Caerdydd a Stadiwm y Principality.
- Arfordir Penfro – Parc Cenedlaethol dynodedig gyda thraethau trawiadol, llwybrau arfordirol, a bywyd gwyllt.
- Cestyll ym mhob cornel – Mae gan Gymru dros 600 o gestyll, yn cynnwys Caernarfon, Conwy a Harlech—y mae nifer ohonynt yn Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO.



Mae Cymru wedi ymrwymo i dwristiaeth gynaliadwy:

- Hyrwyddo teithio eco-gyfeillgar a chynnyrch lleol.
- Annog ymweliadau y tu hwnt i'r cyfnodau prysuraf er mwyn lleihau torfeydd.
 - Gwarchod treftadaeth naturiol a diwylliannol drwy fentrau fel Llwybr Arfordir Cymru.

Mwy o Debygrwydd na
Gwahaniaethau

Effaith Twristiaeth

"Now as I was young and easy under the apple boughs About the lilting house and happy as the grass was green, Time let me hail and climb Golden in the heydays of his eyes." Fern Hill, Dylan Thomas

Maegandwristiaetheffaithddwysachymhlethar gymunedau lleol yng Nghymru, sy'n cynnig cyfleoedd a heriau

Effeithiau Cadarnhaol

- **Hwb Economaidd:** Mae twristiaeth yn cefnogi dros 100,000 o swyddi yng Nghymru ac yn cyfrannu biliynau at yr economi. Mae busnesau lleol fel lleoedd gwely a brecwast, caffis, a siopau anrhegion yn aml yn ffynnu yn sgil gwariant gan ymwelwyr.
- **Gwelliannau i Isadeiledd:** Yn aml, caiff ffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus, a chyfleustodau eu huwchraddio er mwyn croesawu twristiaid, sydd o fudd i breswylwyr hefyd.
- **Gwarchod Diwylliant:** Gall twristiaeth helpu i gynnal yr iaith Gymraeg a thraddodiadau drwy ddod o hyd i ddigwyddiadau diwylliannol ac annog balchder mewn treftadaeth leol.
- **Adfer Amgylcheddol:** Mae rhai hen safleoedd diwydiannol wedi'u trawsnewid yn atyniadau i dwristiaid, gan roi bywyd newydd i ardaloedd sydd wedi'u hesgeuluso

Eisteddfod Ryngwladol Llangollen -internationaleisteddfod.co.uk



<https://creativecommons.org/licenses/by/2.0>



<https://creativecommons.org/licenses/by-sa/2.0>

Effeithiau Negyddol

- **Pwysau Tai:** Gall y cynnydd mewn ail gartrefi a lletyau gwyliau gynyddu prisiau tai, gan ei gwneud hi'n fwy anodd i bobl leol—yn enwedig pobl ifanc—i allu fforddio tai.
- **Cyflogaeth Dymhorol:** Mae nifer o swyddi ym maes twristiaeth yn cael cyflogau isel ac yn dymhorol, gan arwain at ansefydlogrwydd economaidd yn rhai cymunedau.
- **Gormod o Dorfeydd a Straen ar Wasanaethau:** Gall cyrchfannau poblogaidd fynd yn orlawn, gan roi pwysau ar wasanaethau lleol fel rheoli gwastraff a gofal iechyd.
- **Gwanhau Diwylliannol:** Mewn rhai achosion, gall cymunedau deimlo bod eu hunaniaeth yn cael ei masnacheiddio neu ei haddasu i ddarparu ar gyfer twristiaid

Rheilffordd Pont-y-pŵl a Blaenafon



<https://creativecommons.org/licenses/by-sa/2.0>

Twristiaeth yn Lesotho

Er ei fod yn dal i fod yn sector sy'n datblygu, mae'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol Strategol wedi adnabod y diwydiant fel un o'r pedwar piler sy'n hyrwyddo twf economaidd y wlad. Mae Corfforaeth Datblygu Twristiaeth Lesotho yn chwarae rôl hollbwysig o ran hyrwyddo a datblygu twristiaeth yn Lesotho, gwlad sy'n adnabyddus am ei thirluniau trawiadol a'i threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog

“The beautiful mountain kingdom feels like a home away from home”, Y Tywysog Harry.



Argae Katse, <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0>

**Mwy o Debygrwydd na
Gwahaniaethau**

‘Teyrnas yn yr awyr’



Lesotho-freepik.com

Cyfeirir yn aml at Lesotho fel y “Deyrnas Fynyddig” a’r “Deyrnas yn yr Awyr”. Yn wahanol i gyrchfannau sydd wedi’u masnacheiddio’n fwy, mae’r wlad yn cynnig math gwahanol o brofiad i dwristiaid, gyda’i harddwch naturiol, fflora a ffawna gyfoethog, treftadaeth gynhanesyddol a diwylliannol.



Visit Lesotho

With genuine smiles of the Basotho people, beautiful scenery of peaked mountains covering two thirds of the country, meanders of crooked eye-pleasing roads, with air...

 Visit Lesotho

Antur a Diwylliant



Mae'r nifer uchaf o **ôl troed deinosoriaid** wedi'u gwarchod yn ardal yr Afon Subeng a phentref Tsikoane, y mae modd eu dyddio'n ôl i o leiaf tair rhywogaeth wahanol o ddeinosoriaid.



<https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0>

Mae **Gŵyl Ddiwylliannol a'r Celfyddydau Morija** yn ddathliad blynyddol a gynhelir yn nhref hanesyddol Morija yn Lesotho, sy'n arddangos y dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog a doniau artistig pobl Basotho.

Celf a Chrefft

Mae Teyateyaneng yn boblogaidd am y diwydiannau celf a chrefft draddodiadol sydd wedi'u datblygu yno gan y llywodraeth.



<https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0>



Gan Tim Sandell – Cwimewikimediahttp://wikitravel.org/en/Image:Lesotho_maletsunyane_falls.jpg, CC BY-SA 3.0,

Rhaeadrau Maletsuyane

Abseiliwch un o'r rhaeadrau uchaf yn neheubarth Affrica (192 metr).



<https://creativecommons.org/licenses/by/2.0>

Nid i'r gwangalon, mae'r **Sani Pass** yn 2,876 uwchlaw lefel y môr, a dyma le mae'r dafarn uchaf yn Affrica.

Dolenni Pellach

CYMRU

Trethi ail gartrefi yn effeithio ar Dwrstiaeth mewn tref yn Nghymru

[Wales seaside town panic as tourists abandoning in droves | UK | News | Express.co.uk](#)

Twristiaeth Gynaliadwy yng Nghymru

[Twristiaeth Gynaliadwy Cymru | Busnes Cymru](#)

Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO yng Nghymru

[UNESCO World Heritage Sites in Wales | Visit Wales](#)

Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru

[Uncover Wales' stunning National Landscapes | Visit Wales](#)

Ymweliadau rhithiol

[Ymweliadau Rhithiol | Cadw](#)

Digwyddiadau Diwylliannol

[Digwyddiadau diwylliannol | Diwylliant | Croeso Cymru](#)

Ystadegau ar gyfer Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaid yng Nghymru

LESOTHO

Bwyd

[THE 10 BEST Restaurants & Places to Eat in Lesotho 2025](#)

Y llefydd gorau i ymweld â nhw

[15 Best Places to Visit in Lesotho - The Crazy Tourist](#)

Gwyliau Cerddoriaeth a'r Celfyddydau

[Lesotho: Top Festivals to Check Out When Visiting | TRAVEL.COM®](#)

Twristiaeth Gynaliadwy

[Sustainable Tourism Tips & Practices](#)

Pwysigrwydd Twristiaeth yn Lesotho

[What are the importance of tourism in Lesotho? – MassInitiative](#)

Effaith Digwyddiadau Diwylliannol ar Dwrstiaeth Lesotho

[Cultural Experiences in Lesotho: Music, Dance, and Traditional Festivals – Afro Discovery](#)

Bywyd yng Nghymru Wledig

"The hills were quiet, the work was hard, and the chapel bell marked the rhythm of life."



Fferm Trecadwgan, Solva <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0>



Beddgelerth <https://creativecommons.org/licenses/by/2.0>

Roedd bywyd yng Nghymru wledig yn yr 1800au wedi'i lywio gan ffermio, bywyd capel, cysylltiadau cymunedol, ac yn ddiweddarach, cynnydd araf diwydianeiddio. Ffermio ymgynhaliol oedd asgwrn cefn bywyd gwledig. Roedd nifer o deuluoedd yn byw mewn tyddynnod, lle'r oeddent yn tyfu ceirch, haidd, tatws, a llysiau, ac yn cadw llond llaw o wartheg, moch, ac ieir.

Yn yr ucheldiroedd, roedd ffermio defaid yn fwy cyffredin, gan gynhyrchu gwlân a oedd yn bwydo'r fasnach decstilau hynod brysur yn Lloegr. Roedd y gwaith yn dymhorol: plannu, trin gwair, cneifio defaid, a chynaeafu, y cwbl yn ymdrech gymunedol, gyda gwyliau neu ymgynulladau lleol yn cydfynd â nhw yn aml. Arferai nifer o deuluoedd gyfuno ffermio gyda gwaith arall fel gwehyddu, cloddio, neu fudo tymhorol ar gyfer gwaith cynaeafu yn Lloegr.

Yn yr 1800au, cafodd Cymru ei heffeithio'n syfrdanol gan gyfres o newidiadau mawr a amharodd yn ddifrifol ar ffordd o fyw y rhan fwyaf o drigolion. Mewn cyfnod byr o tua hanner cant neu chwe deg o flynyddoedd, roedd pobl Cymru wedi'u gorfodi i bontio o gymdeithas amaethyddol ar lefel ymgynhaliol i un diwydiannol.

Ychydig iawn oedd dulliau ffermio wedi newid ers y Canol Oesoedd, ond wrth i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fynd rhagddi, araf oedd datblygiad amaethyddol. Byddai ffermwyr yn cynnal eu teuluoedd ar ddim bron o arian. Roedd rhaid i'r ffermwr fodloni rhwymedigaethau i'w deulu a'i landlord, a beth bynnag oedd ar ôl byddai'n ei werthu mewn marchnadoedd lleol.

Fodd bynnag, roedd diffyg cyfalaf a chyflwr gwael y ffyrdd yn ei atal rhag cludo ei gynnyrch i farchnadoedd. Yn sgil cynnydd sydyn yn y boblogaeth, rhwng 1800-50, rhoddwyd amaethyddiaeth dan bwysau enfawr.

**Mwy o Debygrwydd na
Gwahaniaethau**

Bywyd Cymdeithasol a Gwleidyddol

Erbyn diwedd y Rhyfeloedd Napoleon, profwyd twf sylweddol yn y diwydiant amaethyddiaeth. Roedd gwelliannau yn nhrafnidiaeth y ffyrdd yn caniatáu i ffermwyr sylweddoli y gallai lefel uwch o gynhyrchiant roi hwb i'w helw.

Serch hynny, daeth diwedd y rhyfel â'r ffyniant hwn i ben yn ddirybudd. Roedd ffermwyr wedi'u gorfodi i ysgwyddo rhan fwyaf o'r baich, a gwaethygodd yr amodau economaidd. Er bod modd cludo nwyddau yn fwy rhwydd, cyflwynodd gyfuniad newydd o broblemau. Dechreuodd Ymddiriedolaethau Tollbyrth fod yn gyfrifol am atgyweirio'r ffordd, yn hytrach na'r plwyf, a daeth y tollau yn fympwyol, gan amrywio o'r naill gwmni i'r llall. O ganlyniad, wynebodd ffermwyr ansicrwydd mewn perthynas â chost gyffredinol cludo eu nwyddau i'r farchnad. Cyfrannodd y tollau annheg hyn at ddechrau Terfysgoedd Beca. Mudodd milwyr a oedd yn dychwelyd o'r rhyfel yn ôl i'w cartrefi yng nghefn gwlad, ond nid oedd gan y system ffermio ar y pryd yr adnoddau i ymdrin â'r argyfwng yr oedd bellach yn ei hwynebu. Prinhaodd nifer y swyddi yn sydyn, ac fe gynyddodd nifer y tlodion a oedd yn dibynnu ar gymorth gan y plwyf nes ei fod yn llethol ac afreolus.



Rebecca riots

The Rebecca riots took place in the rural parts of west Wales, including Pembrokeshire, Cardiganshire, and Carmarthenshire, in 1839-43.

The National Archives




Tolldy, Amgueddfa Sain Ffagan

<https://creativecommons.org/licenses/by-sa/2.0>

Er gwaethaf y cwmp economaidd yn y diwydiant ar ôl y Rhyfeloedd Napoleonig, dechreuodd y galw am gynnyrch haearn godi eto yn yr 1820au a'r 1830au. Gostyngodd diweithdra i beth

gradda yn y 1830au wrth i niferoedd cynyddol o weithwyr fferm fudo i gymoedd y de i chwilio am waith, lle gallai gweithwyr diwydiannol weithwyr fferm fudo i gymoedd y de i chwilio am waith, lle gallai gweithwyr diwydiannol.



<https://creativecommons.org/licenses/by-sa/2.0>

Bywyd yn Lesotho wledig

Bywyd y Bugail Ifanc



<https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0>

Mae bugeiliaid ifanc yn byw bywyd nomadig, yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser oddi cartref. Mae rhai dyletswyddau bugeilio yn dechrau mor ifanc â chwech neu saith oed. Eu prif ddyletswydd yw gofalu am dda byw, sy'n rhan bwysig o economi Basotho.

Mae rhai bugeiliaid ifanc yn dychwelyd adref yn ystod y prynhawn, ac eraill yn treulio bron i hanner blwyddyn neu flwyddyn gyfan yn byw oddi cartref, ar y fferm wartheg.

Mae bugeiliaid ifanc yn aml yn byw mewn llety dros dro o'r enw **motebo**, sef strwythur bach wedi'i adeiladu o gerrig gyda tho o laswellt neu lwyni. Mae'r tai syml hyn yn cynnig llety ac, yn ystod y misoedd oer, maen nhw'n cynnau tân er mwyn cadw'n gynnes ac i baratoi bwyd. Er adloniant, mae'r bugeiliaid yn chwarae gemau lle maen nhw'n taflu cerrig at y naill a'r llall er mwyn hyfforddi manwl gywir. Chwaraeir **Ts'ipho** gyda charreg yn hongian ar llyn o gwmpas canol y bugeiliaid er mwyn cryfhau rhan graidd eu corff

Mwy o Debygrwydd na
Gwahaniaethau



<https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0>

Mae eu dillad yn cynnwys:

- Dillad isaf wedi'i wneud o groen dafad wedi'i dorri mewn siâp triongl a'l glymu o gwmpas y corff yw **Ts'ea**
 - Blanced wlân drwchus wedi'i gosod dros yr ysgwyddau er mwyn cadw'n gynnes
- Gwisgir **Ts'ets'e** ar y pen ac mae'n gwarchod y wyneb rhag pelydrau'r haul. Yn ystod y gaeaf, mae'r balaclafa yn gweithio fel ynysydd rhag y gwyntoedd cryfion o'r mynyddoedd
 - Botasau

Diwrnod Arferol



<https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0>

Fel arfer, mae bugail ifanc yn:

- Mynd i'r cae bob dydd.
 - Bwydo'r gwartheg.
- Gofalu am wartheg y teulu neu wartheg teulu arall hyd yn oed.
- Treulio'r diwrnod yn y cae, yn ogystal â'r nos ar adegau.
- Gwneud sŵn unigryw i arwain y gwartheg



Lineo Mabekebeke, erthygl gan PublicEyeNews

Mae'r cyfrifoldeb o fod yn fugail ifanc yn atal bechgyn rhag ceisio addysg, gwybodaeth hanfodol am iechyd a gwasanaethau

Mae ymrwymïadau teulu neu orfodaeth pur yn golygu bod rhaid i nifer adael yr ysgol yn ifanc. Mae gadael yr ysgol yn ifanc yn golygu eu bod yn colli allan ar gyfleoedd dysgu a datblygu pwysig.

Stori Thabo



<https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0>

<https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0>

Gadawodd Thabo yr ysgol pan oedd yn naw oed er mwyn gofalu am ddefaid, geifr a gwartheg ym mylchau peryglus mynyddoedd Lesotho, yn neheubarth Affrica. Er ei fod mor ifanc, bu'n byw ar ei ben ei hun yn llwyr am fisoedd ar y tro, gydag unig gwmni'r gyr a dau gi. Dychwelodd Thabo at ei deulu ddwywaith y flwyddyn yn ystod y gaeaf, er mwyn gwirio'r anifeiliaid, eu cyfrif, a'u cadw'n gynnes am gyfnod byr.

Yn unigedd y mynyddoedd, Thabo oedd â'r gair olaf. Nid oedd rhaid iddo ofyn am ganiatâd gan unrhyw un, ac nid oedd unrhyw un i'w arwain a dweud wrtho beth sy'n iawn a beth sydd ddim yn iawn. Mewn byd lle'r oedd bod yn ymosodol yn dechneg i oroesi, ni wyddai unrhyw ffordd arall. Roedd trais rhywiol, treisio, a cham-drin corfforol yn dderbyniol. Credai Thabo mai ei hawl ef fel dyn oedd cymryd yr hyn yr oedd ei eisiau gan fenyw. Yn y gyr, doedd caniatâd ddim yn bodoli.

Girlsglobe.org



<https://creativecommons.org/licenses/by/2.0>



<https://creativecommons.org/licenses/by/4.0>

Roedd natur unig gwaith bugail yn golygu bod rhyngweithiadau Thabo â phobl wedi'u rhoi dan straen – roedd wedi arfer taro a gweiddi ar anifeiliaid styfnig er mwyn mynegi anfodlonrwydd ac i gyflawni canlyniadau. Er y gall stori Thabo fod yn anodd ei darllen, dyma'r gwirionedd yn achos nifer o fechgyn. Ar gyfer y rhan fwyaf o deuluoedd gwledig, eu stoc anifeiliaid yw'r unig ffordd o ddarparu ar gyfer eu hunain. Ni allant fforddio i golli eu gyrroedd i ladron ac mae dwyn stoc yn broblem rhy gyffredin. Felly, maen nhw'n anfon eu bechgyn i fyni i'r mynyddoedd, oddi wrth y bygythiad o ladrata, ac, yn rhai achosion, bechgyn heb unrhyw addysg neu arweiniad. Dechreuodd y bugeiliaid ifanc fod yn bariaid cymdeithasol lletchwith, sy'n gwaethygu eu teimladau o unigedd ac arwahaniad. Caiff cystadleuaeth ei chreu rhwng brodyr a chwiorydd wrth i fechgyn gael eu tynnu o addysg a genethod yn aros yn yr ysgol. Mae cyfleoedd bywyd yn lleihau a dyheadau yn cael eu chwalu. Mae cyfleoedd ar gyfer bugeiliaid ifanc yn datblygu'n araf gyda rhaglenni fel Helpu "Rhaglen Hyfforddi Bugeiliaid Ifanc" chwe mis Lesotho sy'n cynnig cefnogaeth ac addysg mawr eu hangen i'r bugeiliaid ifanc. Ar gyfer Thabo, a nifer o'r bugeiliaid ifanc, roedd bod yn rhan o'r rhaglen yn gwneud iddo deimlo'n gysylltiedig â chymdeithas.

Dolenni Pellach

CYMRU

Y Tolldy

Tolldy - Casgliadau Ar-lein

Ffermwyr a chaeau

GENUKI: Farmers and Fields in Nineteenth Century Wales: the case of Llanrhystud, .All of Wales

Rôl capeli

The role of the chapels, education and migration on the language of 19th century Coedpoeth. - COEDPOETH HISTORY SOCIETY

Bywyd a Thraddodiadau yng Nghymru Wledig

Life and Traditions in Rural Wales • FamilySearch

Ewch i: Usk Rural Life Museum

Usk Rural Life Museum | VisitWales

Y Bwthyn Cymreig

Diflaniad y Bwthyn Gwledig Cymreig

Rhyfel y Degwm yng Nghymru

RhyfelyDegwmCymru | Casgliad y Werin Cymru

LESOTHO

Helpu Lesotho -Beth yw'r rhaglen hyfforddi bugeiliaid ifanc?

Cowbois a Bugeiliaid

Annedd bugail

Heriau Bugail

Wrth i anifeiliaid orffwys yn y nos, mae bugeiliaid Lesotho yn mynd i ysgolion wedi'u cynnal gan leianod - Lesotho

Bugeiliaid Gwartheg Basotho: Gwarchodwr Da Byw Lesotho

Bechgyn ar goll o'r ysgol

The Fight against Child Labour Stand Up, Speak Up: Join Us in the Fight Against Child Labour and Human Trafficking in Lesotho | Lesotho | World Vision International

Podlediadau

Futures
Thinking

ANNIBYNIAETH, LESOTHO

Futures
Thinking

ANNIBYNIAETH, CYMRU

Futures
Thinking

IAITH YNG NGHYMURU A
LESOTHO

Futures
Thinking

TWRISTIAETH YNG NGHYMURU A
LESOTHO

Futures
Thinking

BYWYD GWLEDIG YNG
NGHYMRU A LESOTHO

Dolen
LESOTHO CYMRU



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

9Taith